**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Datblygu Cymunedol Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe nos Fercher, 16fed Tachwedd, 2016 am 6.30 yr hwyr.**

**Yn bresennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | I Rh. Llewelyn | B. Rees | P.H. Roberts |
| | Mrs J. E. Collins | | |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr | S. J Roberts |

**1273.**

**Penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor**

**Penderfynwyd** y dylid penodi'r Cynghorydd Mrs J. E. Collins fel cadeirydd i'r pwyllgor.

**1274.**

**Datgan cysylltiad**

Doedd dim.

**1275.**

**Prosiectau ar gyfer 2017-18**

Adroddodd y Swyddog Technegol ei fod wedi derbyn pedwar cais am brosiectau addas yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, ond roedd heb derbyn unrhyw gostau oddi wrth y Cyngor Sir ar y gwariant angenrheidiol eto. Y prosiectau a drafwyd oedd : -

1) Mesurau diwygiedig tawelu traffig ar hyd Heol Woodfield, Llandybie.
2) Palmant estynedig yn arwain o Bonllwyn i Aberlash
3) Lleoli lloches bws newydd yn Heol Dyffryn, Saron (gyferbyn a Maesydail)
4) Lleoli lloches bws newydd yn Heol Rhydaman, Llandybie ar gyffordd Heol Glynhir, Llandybie.

Cytunwyd i **argymell** i'r Cyngor dylid gosod swm o £75,000 yn y gyllideb ar gyfer unrhyw brosiectau a ddaw i oleuni yn cynnwys y rheini a drafodwyd.

**1276.**

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.00 yr hwyr.

Cadeirydd